
# Gweithdai barddoniaeth
## gyda Grug Muse ac Iestyn Tyne

**Dyma gyfres o sesiynau wedi'u hanelu at ysgolion, grwpiau ieuenctid, sgwadiau sgwennu, a grwpiau oedolion. Mae'n cynnwys sesiynau ar ysgrifennu barddoniaeth, ac ar ddarllen a dehongli barddoniaeth, gyda sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol anghenion a lefelau.**

Mae'r gweithdai hyn yn deillio o waith yr arweinyddion yn golygu **Dweud y Drefn pan nad oes Trefn: Blodeugerdd 2020**, antholeg o 100 o gerddi Cymraeg cyfoes a gyhoeddwyd er mwyn ceisio arddangos hyd a lled a gwir amrywiaeth barddoniaeth Gymraeg heddiw. Ar ôl prynu'r copi cyntaf am y pris arferol, mae'r flodeugerdd ar gael am bris gostyngedig o 50% i ysgolion a sefydliadau addysgol.

I gyd-fynd a'r flodeugerdd, argraffwyd pecyn adnoddau am ddim i athrawon, sydd yn rhannu cerddi'r antholeg yn ol themau amrywiol, yn cynnig cwestiynau i sbarduno trafodaethau yn y dosbarth, ac yn awgrymu dulliau o fynd ati i ddadansoddi cerddi. Cysylltwch am fwy o wybodaeth neu i archebu'r flodeugerdd a'r pecyn adnoddau.




## CYNNIG ARBENNIG

Ar ôl y copi cyntaf, cynigir **gostyngiad o 50%** ar bris pob copi ychwanegol o *Dweud y Drefn am nad oes Trefn: Blodeugerdd 2020* a brynir gan ysgolion a sefydliadau addysgol.

Yn ogystal, mae copiau o'r pecyn adnoddau i athrawon sy'n cyd-fynd â 'r gyfrol ar gael **am ddim.**

# Pwy ydym ni?

Mae **Grug** yn fardd ac academydd. Enillodd gadair yr Urdd yn 2013, ac fe gyhoeddwyd ei chasgliad cyntaf o farddoniaeth gyda chyhoeddiadau Barddas yn 2017. Mae hi wrthi'n cwblhau doethuriaeth yn adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ei gwaith wedi ei gyhoeddi yn eang, ac wedi ei gyfieithu i sawl iaith gan gynnwys Almaeneg, Croateg, Fflemeg a Phwyleg.

Mae **Iestyn** yn fardd, yn awdur, ac yn gerddor. Mae wedi cyhoeddi dwy gyfrol o gerddi, a chyhoeddodd ei nofel gyntaf i bobl ifanc yn 2021. Mae ei waith hefyd wedi ymddangos mewn amryw o gyfnodolion a chylchgronau llenyddol, ac mae wedi perfformio ei farddoniaeth dramor yn Ewrop, Affrica a De America. Daw o Lŷn yn wreiddiol ac mae bellach yn byw yng Nghaernarfon.

# Sut i drefnu

Er mwyn trefnu sesiwn, cysylltwch â ni trwy'r cyfeiriad e-bost isod gyda'r math o sesiwn sydd ganddoch chi mewn golwg, gan nodi os yn bosib:

- Maint y grŵp / nifer y grwpiau.
- Ai un sesiwn, neu gyfres o sesiynau mewn diwrnod sydd ganddoch chi mewn golwg?
- Dyddiadau posib.
- Sesiwn rithiol, neu ymweliad a'r ysgol?

Fe wnawn ni ddod yn ôl atoch chi wedyn gydag argaeledd a dyfynbris. **Gweler y dudalen olaf ar gyfer rhestr brisiau**.

**cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com**

# Cynnwys

**Isod, ceir amlinelliad o rai o'r sesiynau y gallwn eu cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, ac rydym yn hapus i drafod a theilwra ein gweithdai yn ôl eich anghenion penodol.**

## Darllen, gwerthfawrogi, a dadansoddi barddoniaeth

### CA3

**Cyflwyniad i ddarllen barddoniaeth.** Beth yw ein hymateb uniongyrchol i ddarn o farddoniaeth; sut mae'n effeithio ar ein synhwyrau a'n hemosiynau? Beth yw'r mwynhad sydd i'w gael o ddarllen cerdd dda; a pha driciau y mae'r beirdd yn eu defnyddio i ennyn ymateb gan y darllenydd?

### CA4

**Cyflwyniad i drafod a dadansoddi barddoniaeth.** Yn ogystal â'n hymateb uniongyrchol i ddarn o farddoniaeth, sut allwn ni fynd ati i ddarllen rhwng y llinellau? Byddwn yn cynnig arfau fydd o ddefnydd wrth drafod cerddi mewn arholiadau ac aseiniadau.

### CA5

**Gweithdy trafod a dadansoddi barddoniaeth,** gan gynnwys yr elfen synoptig o gymharu a chyferbynu â darnau eraill o lenyddiaeth a gweithiau creadigol amlgyfrwng. Byddwn yn cynnig arfau fydd o ddefnydd wrth ddadansoddi cerddi mewn arholiadau ac aseiniadau.

## Ysgrifennu creadigol

### CA3

**Sesiwn bys yn y dŵr.** Sesiwn i roi cyflwyniad i ysgrifennu creadigol, a chael hwyl efo iaith trwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog. Cyflwyniad i odli, sgwennu rhydd, ac ysgrifennu disgrifiadol trwy ymateb i wahanol wrthrychau.

### CA4

**Llacio'r cyhyrau creadigol.** O le mae dod o hyd i ysbrydoliaeth? Gweithdy fydd yn dwyn ysbrydoliaeth o lefydd annisgwyl, gan ddangos nad oes rhaid i ni gymryd barddoni ormod o ddifrif. Arbrofi efo barddoniaeth 'wedi'i chanfod', cerddi torrydd a cherddi blackout.

## CA5

**Y foment dyngedfennol.** Cerddi fel ffotograffau. Gweithdy sydd yn defnyddio ffotograffiaeth fel sbardun i ysgrifennu cerddi.

## Dosbarthiadau meistr

**Soned.** Gweithdy yn edrych ar ffurf y soned yng ngofal Iestyn.

**Ysgrif.** Gweithdy dan ofal Grug yn rhoi cyflwyniad i ffurf yr ysgrif, gan edrych ar waith ysgrifwyr fel T.H. Parry-Williams

**Cerddi penrhydd.** Gweithdy dan arweiniad Grug yn edrych ar rôl bylchau a seibiau mewn cerddi penrhydd.

# Rhestr brisiau

Gweithdy ar gyfer gwers unigol: **£100**

Gweithdy bore neu brynhawn: **£150**

Pecyn diwrnod o weithdai gan un arweinydd: **£250**
Pecyn diwrnod o weithdai gan ddau arweinydd: **£500**

Yn ychwanegol at y ffioedd uchod, byddwn yn codi **45c y filltir** tuag at gostau teithio i weithdai ffisegol; wrth reswm, ni fydd hyn yn berthnasol i weithdai rhithiol.